# Y Pwyllgor Cyllid

# Rheoliad Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

## Cefndir a diben

**01.** Mae Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (y Ddeddf) yn sefydlu treth newydd, sef y dreth gwarediadau tirlenwi. Codir y dreth ar warediadau trethadwy (yn ôl diffiniad y Ddeddf).

**02.** Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gweinyddu'r dreth.

**03.** Mae'r Rheoliadau'n nodi'r gofynion ychwanegol â'r bwriad o gynorthwyo gweithredwyr safle tirlenwi i bennu'r dreth gywir ar gyfer gronynnau gwastraff mân, gan gynnwys profion colled wrth danio a/neu roi'r pwerau sydd eu hangen i hysbysiad gan Awdurdod Cyllid Cymru allu gwneud hynny.

**04.** Mae'r Rheoliadau hefyd yn sefydlu credyd ansolfedd cwsmer y gellir ei hawlio gan weithredwr safle tirlenwi mewn amgylchiadau lle bo'r cwsmer yn ansolfent cyn talu'r gweithredwr safle tirlenwi am warediadau trethadwy.

## Y weithdrefn

**05.** Cadarnhaol

## Craffu ar y rhinweddau

**06.** Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) (sef eu bod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu eu bod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad) mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**07.** Nid oes diffiniad o 'ACC' yn Gymraeg (neu 'WRA' yn Saesneg).  Mae'r un peth yn wir am 'DCRhT' yn Gymraeg (neu 'TCMA' yn Saesneg). Dylai'r ddau ddiffiniad gael eu cynnwys yn Rheoliad 2.

08. Er bod y diffiniadau hyn wedi'u cynnwys yn adran 96 o'r Ddeddf, dylid eu cynnwys yn y Rheoliadau.

## Amcanion polisi

*Datganiad ar y bwriad polisi*

09. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y **bwriad polisi** ar gyfer y pwerau dirprwyedig o fewn y Bil.

*Rhan 1*

10. Mae'r Rhan hon yn darparu i'r Rheoliadau ddod i rym ar y diwrnod y dechreuir codi'r dreth gwarediadau tirlenwi ar warediadau trethadwy.

*Rhan 2*

11. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cymysgedd o ddeunydd sy'n cynnwys gronynnau mân (sef gronynnau a gynhyrchir gan broses trin gwastraff sy'n cynnwys elfen o driniaeth fecanyddol).

12. Mae pob un o'r rheoliadau a gyflwynwyd yn y Rhan hon **yn cyd-fynd â** pholisïau cysylltiedig yn y datganiad.

*Rheoliad 3*

13. Mae'r Rhan hon yn diffinio'r derminoleg a ddefnyddir yn Rhan 2.

*Rheoliad 4*

14. Mae'r Rhan hon yn gosod y gofynion y mae angen eu bodloni er mwyn i ddeunydd sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân gael eu trin fel cymysgedd sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is.

*Rheoliadau 5-7*

15. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion ar gyfer profi colled wrth danio ac maent yn rhoi'r pŵer i Awdurdod Cyllid Cymru roi cyfarwyddiadau i weithredwyr gynnal profion colled wrth danio neu gasglu samplau a chynnal profion colled wrth danio ei hun.

*Rheoliadau 8-11*

16. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r amodau ar gyfer cosb sy'n ymwneud â chadw cofnod wrth gymhwyso deunydd sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân a'r amserlen ar gyfer asesu'r cosbau hyn. Mae'r rhain hefyd yn pennu'r amserlen ar gyfer talu cosb a gwneir darpariaethau atodol ar gyfer hysbysiadau a chyfarwyddiadau gan Awdurdod Cyllid Cymru.

*Rhan 3*

17. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer credydau treth i'r dreth gwarediadau tirlenwi. Roedd y datganiad yn nodi y byddai rheoliadau yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru:

- Greu credydau treth a nodi'r unigolion sy'n gymwys i hawlio credyd.
- Gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau lle gall unigolyn hawlio credyd treth.
- Sefydlu gweithdrefnau ar gyfer hawlio credyd treth.

18. Ym mis Mai 2017, darparwyd **datganiad o fwriad polisi** i'r Pwyllgor Cyllid gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, a oedd yn canolbwyntio ar bwerau rheoleiddiol i greu credydau treth mewn perthynas â dyledion drwg. Roedd y datganiad hwn yn amlinellu bwriad y llywodraeth i fewnosod adran ychwanegol yn y Bil yn ymwneud â'r 'pwerau i wneud darpariaeth ar gyfer credydau treth' (**Adran 54 o Ddeddf Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017**).

19. Mae'r holl reoliadau a gyflwynwyd yn y Rhan hon **yn cyd-fynd â'r polisïau cysylltiedig yn y datganiad ac yn Adran 54 o'r Ddeddf.**

*Rheoliad 12*

20. Cyflwyno credyd treth o'r enw credyd ansolfedd cwsmer.

*Rheoliad 13*

21. Diffinio terminoleg benodol a ddefnyddir yn Rhan 3 o'r Rheoliadau.

*Rheoliadau 14-17*

22. Pennu'r gofynion i'w bodloni er mwyn hawlio credyd treth a diffinio sut y cyfrifir y ddyled sy'n ymwneud â'r credyd treth.

*Rheoliad 18*

23. Gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo cyfanswm y credyd sydd i'w ddisgwyl.

*Rheoliadau 19-21*

24. Pennu'r gweithdrefnau i weithredwyr tirlenwi cofrestredig allu hawlio credyd treth, ynghyd â gweithredwyr tirlenwi nad ydynt bellach yn gofrestredig.

*Rheoliadau 22-23*

25. Pennu'r dystiolaeth y mae angen ei chyflwyno wrth wneud hawliad.

*Rheoliadau 24-25*

26. Gwneud darpariaeth ar gyfer adennill taliad credyd treth o ganlyniad i daliad treth dilynol gan y cwsmer neu fethiant i gadw cofnodion priodol neu dystiolaeth arall.

*Rheoliad 26*

27. Cyflwyno Atodlen sy'n diwygio'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi mewn perthynas â chredydau treth.

*Rheoliad 27*

28. Addasu'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer y sawl nad ydynt bellach yn weithredwyr tirlenwi cofrestredig ond sydd wedi gwneud gwarediadau trethadwy i gwsmer allu hawlio credyd treth.

*Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid*

29. Ni wnaed unrhyw sylwadau yn ymwneud â'r rheoliadau a gyflwynwyd yn ystod y gwaith craffu yng Nghyfnod 1.

***Ymatebion i'r ymgynghoriad***

*Ymgynghoriad y Cynulliad*

30. Yn ei **ymateb i'r ymgynghoriad**, gofynnodd Tata Steel a fyddai'r gofynion ar gyfer y profion colled wrth danio a nodwyd yn y Rheoliadau yr un fath â'r profion ar gyfer colled wrth danio o dan ddeddfwriaeth y DU.

*Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru*

31. Un thema a gododd dro ar ôl tro ynghylch profion colled wrth danio oedd pwysigrwydd cadw cysondeb trawsffiniol er mwyn osgoi 'twristiaeth gwastraff'. Dywedwyd:

...consistency with the UK would “ease compliance” for businesses operating in more than one part of the UK, and prevent any issues arising from “cross border transportation of waste”.

32. O ran y credyd ansolfedd cwsmer ar gyfer gweithredwyr safle tirlenwi a nodwyd yn y rheoliadau, cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at fodel Llywodraeth yr Alban, a'i gefnogi, gan i'r model hwnnw gyfyngu ar yr amgylchiadau lle gallai gweithredwyr safle tirlenwi hawlio rhyddhad dyled ddrwg.

33. Meddai rhai o'r ymatebwyr hefyd y bydd Llywodraeth Cymru o bosibl am 'adlewyrchu'r model cyfredol ar gyfer TAW rhyddhad dyled ddrwg o amgylch yr amser cyn y gellir gwneud hawliad. Yn neddfwriaeth y DU, gellir hawlio rhyddhad dyled ddrwg ar ôl cyfnod o 12 mis, ond gellir hawlio rhyddhad dyled ddrwg TAW ar ôl 6 mis.

*Rheoliadau yn yr Alban*

34. **Nid oes unrhyw wahaniaethau nodedig** rhwng y rheoliadau sy'n ymwneud â chymysgedd deunydd sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân neu gredydau treth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a rhai Llywodraeth yr Alban.

35. Mae **Rheoliadau Treth Tirlenwi yr Alban (Gweinyddu) 2015**, **canllawiau deddfwriaeth Treth Tirlenwi yr Alban** a **Deddf Cyllid yr Alban a Phwerau Treth 2014** yn cynnwys deddfwriaeth debyg sy'n ymwneud â'r rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

*Rheoliadau'r DU*

36. **Nid oes unrhyw** wahaniaethau nodedig rhwng y rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

37. Mae **Gorchymyn Treth Dirlenwi (Gronynnau Mân Cymwys) (Rhif 2) 2015** yn deddfu ar ddeunydd sy'n cynnwys gronynnau mân a phrofion colled wrth danio ar gyfer deunydd o'r fath, a chaiff y gweithdrefnau ar gyfer y prawf a phwerau Cyllid a Thollau EM i gynnal y prawf eu diffinio yn **Hysbysiad LFT1 Cyllid a Thollau EM**.

38. Mae Adrannau 51-53 o **Ddeddf Cyllid y DU 1996** yn gwneud darpariaeth ar gyfer credyd treth i ddyledion drwg. Yn **Rheoliadau Treth Tirlenwi 1996**, gwnaed rheoliadau yn ymwneud â'r fath gredydau treth a oedd yn nodi sut y dylent gael eu cyfrifo. **Mae Hysbysiad LFT1 Cyllid a Thollau EM** hefyd yn darparu canllawiau ynghylch yr hawl i gael

credyd, y dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn hawlio credyd ac enghreifftiau ar gyfer cyfrifo credyd.

## Ymateb y Llywodraeth

**39.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau a wneir ym mharagraffau 1-36 yn yr adroddiad hwn. Er eglurder, mae paragraff 12 yn gywir bod rheoliad 4 yn nodi'r gofynion sydd i'w bodloni er mwyn i ddeunyddiau sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân gael eu trin fel cymysgedd sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd is. Noder, fodd bynnag, fod y rheoliad hwn yn darparu bod y gofynion a nodir o fewn y rheoliad hwnnw yn ychwanegol at y rhai a nodwyd eisoes yn adran 16 o'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi.

## Safbwynt y Pwyllgor

**40.** Nododd y Pwyllgor y rheoliadau.